

## **NODIADAU CYFARWYDDYD AR DDARPARU DATA GOFODOL AM BROSIECTAU O DAN Y CYNLLUN RHEOLI CYNALIADWY**

Y Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio

Mesur 16.5, Nodiadau Cyfarwyddyd ar gyfer y Cynllun Rheoli Cynaliadwy( SMS)<sup>1</sup>

Un o'r amodau y mae gofyn i brosiectau eu bodloni pan geir cyllid o dan y Cynllun Rheoli Cynaliadwy, a ddarperir o dan Fesur 16.5 o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, yw sicrhau eu bod yn gallu casglu data am weithgareddau yn y fformat gofynnol. Cyfeirir yn benodol at weithgareddau rheoli tir ar system GIS a'r gallu i ddiogelu a rhannu'r data hynny gyda Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill, gan gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Byddem yn disgwyl y gallai fod gan brosiectau cydweithredol sy'n gwneud cais i'r Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS) gcontractau byw o dan Glastir Sylfaenol, Uwch, Tir Comin, Coetir a/neu Grantiau Bach Glastir i ariannu gweithgareddau unigol ar lefel fferm sy'n cyfrannu at allbynnau a chanlyniadau cyffredinol y prosiect. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i brosiectau osgoi'r risg o gyllido dwbl a dyblygu gweithgareddau. Bydd cofnodion gofodol (mapiau y gellir eu rhoi ar ein system) am yr holl weithgareddau sy'n rhan o'r prosiect yn golygu y bydd modd gwahaniaethu'n glir. Mae cynllun monitro a gwerthuso cryf yn un o'r gofynion sy'n gysylltiedig â phrosiectau SMS, ac un o elfennau'r cynllun hwnnw yw cofnodi'r holl weithgareddau rheoli tir ar ffurf mapiau. Croesewir setiau data ychwanegol sy'n cofnodi data am weithgareddau iechyd a lles, hamdden a mynediad, a manteision cymunedol.

### **AMCAN y nodyn cyfarwyddyd hwn**

Sicrhau bod prosiectau a ariennir o dan SMS yn darparu data cadarn, dealladwy, sy'n seiliedig ar leoliadau (gofodol) am weithgareddau prosiectau, a bod y data hynny'n ddata y gellir eu defnyddio. Bydd y data'n llywio ac yn helpu gyda'r gwaith o reoli cynllun SMS yn weithredol ac yn ariannol, a byddant yn addas ar gyfer llywio'r

---

<sup>1</sup> [cynllun-rheoli-cynaliadwy-canllawiau.pdf \(llyw.cymru\)](#)

gwaith o gydlynu gweithgareddau amgylcheddol eraill mewn ffordd effeithiol, yn awr ac yn y dyfodol.

## **Y GOFYNION**

Er mwyn i ddadansoddwyr fedru deall data a ddarperir gan brosiectau SMS ac er mwyn i'r data hynny fod yn gydnaws â systemau'r Llywodraeth (a phartneriaid), dylech fodloni'r gofynion isod.

### **1. Fformat**

Dylai'r data a darperir i Lywodraeth Cymru fod mewn fformat agored pryd bynnag y bo modd. Bydd y math o fformat yn amrywio yn ôl y math o ddata yr hoffech eu darparu.

<b>Math o Ddata</b>	<b>Fformat Agored</b>
Data fector– pwyntiau	<a href="#">csv</a> (Ffeil gwerthoedd wedi'u gwahanu ag atalnod)
Data fector – llinellau, polylinellau, polygonau etc	<a href="#">GeoJSON</a>
Rastr	<a href="#">GeoTIFF</a>
Cwmwl pwyntiau LiDAR	<a href="#">LAS</a>

### **2. System Cyfeirio Gofodol**

Dylid cyfeirio data daearyddol at [WGS84](#) (a elwir hefyd yn WGS 1984, EPSG:4326) ac yn ddelfrydol, dylid eu storio yn eich data fel graddau degol. e.e.

<b>X</b>	<b>Y</b>
-4.07125	52.40801

### **3. Mapio sylfaenol**

#### **Trwyddedu**

Os ydych yn defnyddio mapio sylfaenol i gofnodi a digideiddio'ch data, cofiwch am gryfderau a chyfyngiadau pob set ddata. Er enghraifft, os defnyddir mapio sylfaenol eglur iawn (fel Mastermap yr Arolwg Ordnans neu unrhyw gynhyrchion sydd ar gael

o dan drwydded fasnachol), mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau o ran gyda phwy y cewch rannu'r data.

Mae nifer o setiau data ar gael yn rhad ac am ddim sy'n darparu mapio sylfaenol eglur iawn ond nad oes unrhyw gyfyngiadau afresymol ar eu defnyddio. Er enghraifft, cynhyrchion OpenData yr Arolwg Ordnans, OpenStreetMap ac amrywiaeth o ddelweddau o'r awyr a allai fod ar gael yn eich ardaloedd.

## **Cywirdeb**

Dylai cywirdeb eich data fod yn adlewyrchiad da o leoliad gofodol a maint yr ardal neu'r nodwedd rydych yn ei chofnodi yn y byd go iawn. Dylech ofalu bod ansawdd eich data yn gyson uchel (h.y. nad oes unrhyw gamgymeriadau amlwg a allai fod yn gamarweiniol o ran graddfa neu leoliad y gweithgareddau yr ymgwymerwyd â nhw yn y byd go iawn).

Mae'r rhestr a ganlyn yn awgrymu'r meysydd lle gallech wneud camgymeriad drwy ddamwain:

***Trawsgrifio cyfesurynnau*** – mae'n bosibl y bydd cyfesurynnau a gofnodir â llaw pan fyddwch allan yn y maes yn cael eu hysgifennu'n anghywir yn y lle cyntaf neu gall gwallau ddigwydd wrth iddyn nhw gael eu 'digideiddio'. Gofalwch eich bod yn arfer cysondeb wrth gofnodi cyfesurynnau (h.y. eich bod wedi cytuno'n benodol ar sut i gofnodi, e.e. 6 digid)

***GPS*** – gall lleoliadau sy'n deillio o Systemau Lleoli Byd-eang (GPS) amrywio'n fawr o ran eu cywirdeb gofodol. Gofalwch eich bod yn cadarnhau bod lleoliadau GPS wir yn cynrychioli lleoliadau yn y byd go iawn.

## **4. Confensiynau Enwi**

Mae angen ichi wneud yn siŵr bod gan y setiau data a ddarperir enwau clir a rhesymegol. Os byddwch yn darparu nifer o setiau data am thema debyg, ceisiwch arfer cysondeb wrth enwi, gan sicrhau bod unrhyw amrywiad yn cael ei adlewyrchu yn yr enw. Er enghraifft, os oes gan setiau data gwahanol am yr un nodwedd fathau gwahanol o geometreg: Pit1\_SMS\_pwynt; Pit1\_SMS\_polygon neu, os oes data

tebyg wedi'u casglu dros gyfnodau amser gwahanol: Pit1\_SMS\_pwynt\_2018\_01\_01; Pit1\_SMS\_pwynt\_2019\_01\_01.

## 5. Sensitifrwydd

Cofiwch fod posibilrwydd y gallai gwybodaeth bersonol neu wybodaeth sy'n sensitif mewn ffordd arall gael ei chynnwys (yn fwriadol neu'n anfwriadol) yn eich data. Mae gwybodaeth ategol ddefnyddiol am wybodaeth bersonol ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: <https://ico.org.uk/>

Mae Swyddfa'r Comisiynydd wedi cyhoeddi dogfen gyfeirio ddefnyddiol hefyd: [https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1549/determining\\_what\\_is\\_personal\\_data\\_quick\\_reference\\_guide.pdf](https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1549/determining_what_is_personal_data_quick_reference_guide.pdf)

Os yw gwybodaeth yn sensitif, efallai y bydd gofyn ichi eu trin a'u rheoli'n fwy gofalus na gwybodaeth nad yw'n sensitif. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am sensitifrwydd eich data, cysylltwch â [sustainablemanagementscheme@llyw.cymru](mailto:sustainablemanagementscheme@llyw.cymru)

## 6. Metadata

Mae Metadata yn disgrifio data eraill. Maen nhw'n darparu gwybodaeth am yr hyn sydd wedi'i gynnwys mewn eitem benodol. Mae hyn yn bwysig ar gyfer eich prosiect oherwydd y bydd metadata da yn golygu y bydd modd i'ch setiau data gael eu deall, eu dadansoddi a'u hailddefnyddio heb ichi ysgwyddo'r baich o orfod mynd ati dro ar ôl tro i esbonio, ailfformatio neu olygu'ch setiau data ar gyfer defnyddwyr. Efallai fod rhai yn meddwl bod paratoi metadata yn waith beichus sy'n cymryd llawer o amser ond bydd paratoi metadata clir, cryno sydd ag ôl meddwl arnynt yn arbed llawer o amser ichi yn y pen draw ac mae'n ffordd i sicrhau'r gwerth mwyaf posibl i'ch data.

Gall metadata ddod ar sawl ffurf ond mae metadata ar gyfer gwybodaeth ofodol wedi hen ennill eu plwyf. Mae yna hefyd ychydig o offer a all eich helpu i baratoi metadata defnyddiol i gyd-fynd â'ch setiau data. Rydym yn disgwyl safon sy'n cydymffurfio â sgema UK GEMINI wrth ichi gyflwyno metada am eich prosiectau. Mae rhagor o wybodaeth am UK GEMINI y DU i'w gweld yma: <https://www.agi.org.uk/agi-groups/standards-committee/uk-gemini>

Mae offeryn metadata UK GEMINI ar gael drwy data.gov.uk, sy'n ffordd ddefnyddiol o greu, mewnfario neu ddilysu'ch metadata. Gallwch weld yr offeryn yma (os nad oes gennych gyfrif eisoes, bydd angen ichi greu un):

<https://locationmde.data.gov.uk/ukmelogin>

Defnyddiwch yr offeryn i greu'ch cofnodion metadata, defnyddiwch yr offeryn dilysu, ac yna lawrlwythwch eich cofnodion metadata i gyd-fynd â'ch data gofodol.

Gofynnir ichi nodi y dylai'r metadata gynnwys digon o fanylion i ganiatáu i ddefnyddiwr sydd heb gysylltiad â'ch prosiect ddeall ac aildefnyddio'ch data'n hyderus.

